# ADOLYGIAD O GYLLIDEB INTEGREIDDIO ADDYSG

**ADRODDIAD DRAFFT**

**GAN**

**BWYLLGOR SGRIWTINI ADDYSG A HAMDDEN**

**MAWRTH 2013**

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | Tudalen 2 |
| 2. | Pwy sy'n gymwys i dderbyn darpariaeth AAA | Tudalen 3 |
| 3. | Sector Cynradd | Tudalen 4 |
| 4. | Sector Uwchradd | Tudalen 6 |
| 5. | Canolfannau / Unedau Arbennig | Tudalen 8 |
| 6. | Ysgol y Bont | Tudalen 10 |
| 7. | Adrannau Unigol o'r Gyllideb | Tudalen 11 |
| 8. | Fformiwlau Cyllido Amgen / Eraill | Tudalen 17 |
| 9. | Casgliad | Tudalen 21 |
| 10. | Argymhellion | Tudalen 21 |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Trafodwyd sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Addysg yn ystod cyfarfod Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden ar 21ain Tachwedd 2012, a nodwyd bod gwariant y gwasanaeth £494,000 yn uwch na'r swm oedd wedi ei gyllido at ddiwedd Ail Chwarter 2012. Tra 'roedd gorwario ar rai adrannau, a thanwario ar adrannau eraill, 'roedd gorwariant clir mewn cysylltiad â thair adran flaenllaw a phenodol sef:

- Integreiddio (uwchradd) - £320,000
- Integreiddio (cynradd) - £79,000
- Gwasanaeth Lles Addysg - £44,000 (blwyddyn ariannol lawn).

1.2 Yn dilyn cais gan Bennaeth y Gwasanaeth Addysg, cytunwyd y dylid sefydlu Panel Deilliant Sgriwtini er mwyn cynnal ymchwiliad trylwyr i Gyllideb Integreiddio Addysg ac i ddarparu casgliad o argymhellion cadarn ar gyfer sut y dylid rheoli'r gyllideb honno yn y dyfodol.

1.3 Amcanion y Panel oedd:

- I arolygu dadansoddiad o'r cyllidebau sy'n gysylltiedig â darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), gan adnabod y gwariant mewn cysylltiad ac amrywiol adrannau o'r gyllideb ac ystyried rhesymau am hyd a lled y gwariant hwnnw;
- I lunio argymhellion ynglŷn â sut y gellid ailfodelu darpariaeth AAA er mwyn lleihau gorwariant arfaethedig a gwella mesurau / trefniannau rheoli mewn cysylltiad â gwariant yn y dyfodol;
- I ystyried effaith unrhyw argymhellion arfaethedig ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer disgyblion gydag AAA yn y dyfodol.

1.4 Clustnodwyd cyllideb genedlaethol o £347 miliwn ar gyfer gwariant ar ddarpariaeth AAA yng Nghymru yn ystod 2012-13 (swm sy'n gyfystyr â £769 y disgybl ar gyfartaledd). Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn gwario cyfartaledd o £939 y disgybl ar ddarpariaeth AAA (swm sy'n gyfystyr â £170 yn fwy – y pen – na'r cyfartaledd cenedlaethol). Yn wir – wedi ei seilio ar gyfartaledd y pen – CSYM yw'r Awdurdod Lleol sy'n gwario fwyaf ar ddarpariaeth AAA yng Ngogledd Cymru, ac maent hefyd ymysg yr awdurdodau sy'n gwario'r swm mwyaf ar ddarpariaeth AAA drwy Gymru gyfan.

**Tabl 1: Gwariant y disgybl pob un o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru (2012/13)**

| Awdurdod Lleol | Gwariant y disgybl (£) | Maint y gwariant o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (Cymru - £) |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 939 | **+170** |
| Sir y Fflint | 870 | **+101** |
| Conwy | 847 | **+78** |
| Gwynedd | 841 | **+72** |
| Wrecsam | 794 | **+25** |
| Sir Ddinbych | 656 | -113 |
| Cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan | **769** | Amh. |

1.7 Nid eithriad yw lefel gwariant uchel CSYM ar ddarpariaeth AAA yn ystod 2012-13. Yn wir, 'roedd gwariant y pen yr awdurdod hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan yn ystod 2010-11 a 2011-12. Ond – wedi dweud hyn – mae'r bwlch rhwng gwariant y pen CSYM a'r cyfartaledd cenedlaethol wedi lleihau yn sylweddol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

**Tabl 2: Gwariant y pen / y disgybl CSYM o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan**

| | Cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (£) | Gwariant y pen / y disgybl CSYM (£) | Maint y gwariant o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (Cymru - £) |
|---|---|---|---|
| 2010-11 | 754 | 990 | **+236** |
| 2011-12 | 770 | 1,024 | **+254** |
| 2012-13 | 769 | 939 | **+170** |

1.8 Bwriad yr adolygiad hwn yw edrych yn fanwl ar faes ble y gwelwyd twf cynyddol mewn gwariant dros y blynyddoedd, fel y gellid canfod beth yn union yw'r rhesymau sydd wrth wraidd y twf yma, a mynd ati i ystyried sut i sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gwell gwerth am arian yn y dyfodol.

## 2. Pwy sy'n gymwys i dderbyn darpariaeth AAA, a sut mae buddiolwyr yn cael eu hadnabod.

2.1 Mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio plant gydag AAA fel plant sy'n cael llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na chyfoedion o'r un oed a hwy. Ystyrir ystod o anawsterau sydd angen cefnogaeth (gan gynnwys anawsterau cyfathrebu,

corfforol a synhwyraidd, ac emosiynol) fel AAA, ac felly nid yw plentyn sydd gydag AAA o reidrwydd yn anabl.

2.2 Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn nodi'r canlynol: "*Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu bod angen i drefniadau addysgol arbennig gael eu gwneud ar eu cyfer*".

2.3 Dilynir meini prawf caeth – sydd wedi eu seilio ar ofynion y safonau cenedlaethol cydnabyddedig – wrth fynd ati i ystyried darparu AAA ar gyfer unrhyw ddisgybl yn Ynys Môn. Adolygodd yr awdurdod y meini prawf yma yn ddiweddar (yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf), a chytunwyd eu bod yn parhau i fod yn ddigon caeth, ac yn addas i'w pwrpas.

## 3. Sector Cynradd

3.1 Mae CSYM yn gyfrifol am 48 ysgol gynradd led led yr ynys, ac mae 4,922 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion hynny ar hyn o bryd. Mae gan 5.3% o'r disgyblion hynny AAA sy'n gofyn am ddarpariaeth ychwanegol. Rhagwelir gwariant 2012/13 yn **£2,571,819** ar gyllideb o **£2,435,675,** gorwariant o **£136,144**. Rhagwelir y bydd y gwariant ar AAA yn y Sector Cynradd yn ystod 2013-14 ychydig yn llai (**£2,474,903**).


**Tabl 3: Gwariant AAA Sector Cynradd o'i gymharu â'r gyllideb.**

| | Cyllideb (£) | Gwir Wariant (£) | Gwahaniaeth (+/- £) | Gwahaniaeth (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2009/10 | 2,335,235 | 2,757,371 | +422,134 | **18.08%** |
| 2010/11 | 2,534,035 | 2,587,577 | +53,542 | **2.12%** |
| 2011/12 | 2,532,169 | 2,536,955 | +4,786 | **0.19%** |
| 2012/13 | 2,441,795 | 2,337,146* | Amh. ** | Amh. |

* Amcangyfrif o'r gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfan (wedi ei seilio ar ffigyrau hyd at 11/03/2013).

** Rhagwelir y bydd gorwariant o tua £150,000 ar gyfer 2012/13.

**Siart 1: Gwariant AAA Sector Cynradd o'i gymharu â'r gyllideb (2009/10 – 2011/12)**





3.2 Er bod CSYM wedi gorwario ar AAA yn y Sector Cynradd drwy gydol y cyfnod 2009/10 i 2011/12, dengys Tabl 3 a Siart 1 bod y gwahaniaeth rhwng maint y gorwariant hwnnw a'r gyllideb a glustnodwyd wedi lleihau yn ystod yr un cyfnod. Tra 'roedd gwariant yr awdurdod 18.08% yn uwch na'r gyllideb yn 2009/10 - yn dilyn cynnydd yn y gyllideb a gostyngiad mewn gwariant - 'roedd y gwahaniaeth rhwng maint y gorwariant a'r gyllideb gan waith yn llai (dim ond 0.19%) erbyn 2011/12. Amcangyfrifon - sydd wedi eu cynnwys er gwybodaeth yn unig - yw'r ffigyrau ar gyfer 2012/13.

3.3 Mae'r tabl canlynol yn arddangos gwariant Integreiddio Cynradd fesul dalgylch ysgol uwchradd ar gyfer 2012/13, a hefyd yn cynnwys amcangyfrif o'r gwariant / dosraniad fesul dalgylch ar gyfer 2013/14.

**Tabl 4: Gwariant AAA / Integreiddio Sector Cynradd fesul dalgylch ysgol uwchradd**

| Dalgylch | Gwariant 2012/13 (£) | % Cyfran | Amcangyfrif 2013/14 (£) | % Cyfran |
|---|---|---|---|---|
| Amlwch | 506,102 | 20% | 488,310 | 20% |
| Bodedern | 223,182 | 9% | 203,799 | 8% |
| David Hughes | 575,876 | 22% | 550,466 | 22% |
| Caergybi | 760,455 | 29% | 745,472 | 30% |
| Llangefni | 506,204 | 20% | 486,856 | 20% |
| **Cyfanswm** | **2,571,819** | **Amh.** | **2,474,903** | **Amh.** |

**Siart 2: Amcangyfrif o wariant AAA Sector Cynradd fesul dalgylch ysgol uwchradd 2012/13 (%)**




## 4. Sector Uwchradd


4.1 Mae CSYM yn gyfrifol am bum ysgol uwchradd, ac mae 4,012 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion hynny. Mae gan X% o'r disgyblion hynny AAA. **£1,764,230** yw cyllideb AAA Sector Uwchradd CSYM ar gyfer 2012/13, ond rhagwelir y bydd yr awdurdod yn gwario **£2,009,247** yn y maes yma yn ystod yr un cyfnod (gorwariant o **£245,017**).

**Tabl 5: Gwariant AAA Sector Uwchradd o'i gymharu â'r gyllideb**

| | Cyllideb (£) | Gwir Wariant (£) | Gwahaniaeth (+/- £) | Gwahaniaeth (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2009/10 | 1,755,230 | 2,062,505 | 307,275 | **17.51%** |
| 2010/11 | 2,012,320 | 2,109,029 | 96,709 | **4.8%** |
| 2011/12 | 1,864,170 | 2,230,762 | 366,592 | **19.7%** |
| 2012/13 | 1,764,230 | 2,009,247* | Amh. | Amh. |

* Amcangyfrif o'r gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfan (wedi ei seilio ar ffigyrau hyd at 11/03/2013).

**Siart 3: Gwariant AAA Sector Uwchradd o'i gymharu â'r gyllideb 2009/10 - 2012/13**




4.2 Dengys Tabl 5 a Siart 3 bod y gorwariant ar AAA yn y Sector Uwchradd wedi lleihau yn sylweddol rhwng 2009/10 a 2010/11. Ond – wrth i'r DU gael ei llesteirio gan sefyllfa economaidd fregus – gwelwyd lleihad o £148,150 ym maint y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer AAA Sector Uwchradd yn ystod 2011/12, a gwelwyd twf o £121,733 yn y gwariant ar AAA Sector Uwchradd yn ystod yr un flwyddyn. Yn sgil hynny, tyfodd maint y gorwariant ar gyfer 2011/12 i £366,592 (19.7% yn fwy na maint y gyllideb). 'Roedd hyn yn fwy o orwariant na welwyd yn ystod 2009/10.

4.3 £1,759,280 yw maint cyllideb AAA Sector Uwchradd CSYM ar gyfer blwyddyn academaidd 2012/13. Mae'r ffigwr yma **£140,890** yn llai na'r swm a gafodd ei glustnodi ar gyfer yr un perwyl yn 2011/12, ac yn gyffelyb i'r gyllideb a gafodd ei chlustnodi ar gyfer AAA yn y Sector Uwchradd yn ystod 2009/10.

4.4 Gan fod hwn yn faes mor gymhleth, cytunwyd y byddai'n fuddiol i adolygu'r gyllideb a'i thorri i lawr i adrannau llai. Byddai gwneud hyn yn hwyluso'r broses o fynd ati i adnabod ardaloedd penodol o wariant uchel o fewn y gyllideb, a hefyd yn ei gwneud hi'n haws i ennill gwell dealltwriaeth o'r maes sydd o dan sylw. Ymhellach, pwysleisiwyd efallai y byddai angen mynd ati i edrych ar bob ysgol yn annibynnol, er mwyn gallu adnabod faint yn union yw cost y pen ar gyfer y disgyblion ym mhob ysgol. Wedi gwneud hyn, gellid mynd ati i ddadansoddi sut mae'r costau hynny yn cyfateb i faint o gefnogaeth ariannol ychwanegol y mae pob ysgol yn ei dderbyn ar gyfer AAA.

4.5 Archwilir a thrafodir y ddau fater yma ymhellach yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn.

## 5. Canolfannau/Unedau Arbennig

5.1 Yn ychwanegol at gyllido darpariaeth AAA yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd, mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn gwneud darpariaeth mewn 5 o unedau dynodedig gan gyflogi un athro/athrawes amser llawn ym mhob uned:

- Uned Anghenion Arbennig, Moelfre
- Uned Anghenion Arbennig, Parch Thomas Ellis
- Uned Anghenion Arbennig, Llandegfan
- Uned Asesu Cyn Ysgol, Llangefni
- Uned Asesu Cyn Ysgol, Biwmares.

5.2 I werthfawrogi'n llawn lefel gwariant yr Awdurdod ar y ddarpariaeth AAA, mae'n hanfodol fod gwariant yn yr unedau uchod hefyd yn cael ei nodi a'i ystyried.

5.3 Mae'r ALl yn rhedeg tair uned ran amser i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Uned Cybi (Ysgol y Parch Thomas Ellis), Uned y Glannau (Ysgol Llandegfan) ac Uned Eilian (Ysgol Moelfre) gyda lle ar gyfer oddeutu 12 ddisgybl ym mhob un. Canfuwyd fod cost cynnal un o'r unedau hyn ar hyn o bryd tua £50,000 (heb gynnwys costau cludiant ac ati) gyda'r gwariant hwnnw'n cael ei rannu ar sail 50/50 rhwng yr ALl a'r ysgolion lle mae'r uned wedi ei lleoli. Mae tystiolaeth fod disgyblion sy'n mynychu'r unedau yn gwneud cryn gynnydd gan eu galluogi i ddychwelyd ar sail amser llawn i'w 'rhiant' ysgol erbyn Blwyddyn 6 a pharhau mewn addysg priflif heb yr angen am gymorth ychwanegol ac eithrio'r cymorth hwnnw y mae'r ysgol yn ei ddarparu.

5.4 Isod, ceir asesiad o gost cynnal a chadw'r tair uned ran amser ynghyd ag arwydd o nifer y disgyblion sy'n mynychu pob un.

### 5.5 Uned Eilian (Moelfre)

5.5.1 Ar hyn o bryd, mae lle i 10 o ddisgyblion yn Uned Eilian yn Ysgol Gynradd Moelfre gyda chyllideb flynyddol o £24,480 gan yr ALl; ym mis Chwefror 2013, roedd 4 o ddisgyblion yn mynychu'r uned (33% o'i chapasiti).

5.5.2 Yn seiliedig ar ffigyrau 2011/12 mewn perthynas â gwariant yr ALl sef £25,411, mae hyn yn cyfateb i **£6,352.75** fesul disgybl.

5.6 **Uned Cybi (Ysgol y Parch Thomas Elis, Caergybi)**

5.6.1 Mae Uned Cybi yn Ysgol y Parch Thomas Elis yng Nghaergybi yn rhoddi cefnogaeth i 10 o ddisgyblion ond mae lle yno i 12 (felly 84% o'r capasiti).

5.6.2 Gan edrych eto ar ffigyrau 2011/12 i ddibenion cymharu, gellir nodi bod gwariant yr ALl sef £25,423 yn cyfateb i **£2,542.30** fesul disgybl – 40% o'r gost fesul disgybl yn Uned Eilian ac 82% o'r gost fesul disgybl yn Y Glannau.

5.7 **Uned Y Glannau, Ysgol Gynradd Llandegfan**

5.7.1 Eto, mae gan Uned y Glannau yn Ysgol Gynradd Llandegfan le i 12 o ddisgyblion; ac er bod cymaint ag 15 o ddisgyblion wedi mynychu'r uned yn y gorffennol, 10 o ddisgyblion sydd yn mynd iddi ar hyn o bryd (sef 84% o'i chapasiti).

5.7.2 Yn ystod 2011/12 roedd gwariant yr ALl yn Y Glannau yn £30,961 sy'n cyfateb i **£3,096.10** fesul disgybl – sef 48% o'r gost fesul disgybl yn Uned Eilian.

5.8 **Uned Asesu Cyn Ysgol, Llangefni a Biwmares**

5.8.1 Ar hyn o bryd, mae 29 o blant rhwng 3-5 oed yn mynychu'r Unedau Asesu CynYsgol am hyd at 10 awr yr wythnos. Ychwanegwyd at y capasiti er mwyn cwrdd â'r galw drwy agor yr unedau ar sail amser llawn gyda gwahanol ddisgyblion yn mynychu'r sesiynau yn y bore a'r prynhawn.

**Tabl 6: Gwariant blynyddol yn Unedau Asesu Cyn Ysgol Llangefni a Biwmares**

| | Cyllideb (£) | Gwirioneddol (£) | Gwahaniaeth (+/-) (£) | Gwahaniaeth (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2009/10 | 125,550 | 134,126 | 8,576 | 6.8% |
| 2010/11 | 131,130 | 141,099 | 9,969 | 7.6% |
| 2011/12 | 132,654 | 146,705 | 14,051 | 10.6% |
| 2012/13 | 134,760 | * | * | * |

* Nid oedd ffigyrau ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

5.8.2 Er gwaethaf y ffaith bod y gyllideb flynyddol ar gyfer yr unedau CA2 wedi codi £9,210 ers 2009/10, cynnydd o 7.3%; mae hynny wedi cyd-ddigwydd gyda chynnydd o £12,579 yn y gwariant blynyddol rhwng 2009/10 a 2011/12, sef cynnydd o 9.4%

5.9 Gellid dadlau o bersbectif ariannol yn unig, nad yw Uned Eilian fel y nodir yn 5.5 uchod yn ariannol hyfyw ar hyn o bryd. Gyda gwariant uchel ar ddarpariaeth sy'n

rhedeg ar 33% o'i chapasiti, dylid ystyried a oes angen yr Uned neu ac ydyw wedi ei lleoli yn yr ardal ddaearyddol gywir.

5.10 Ymhellach, wedi nodi bwlch cyllido cynyddol yn yr Unedau Asesu Cyn-Ysgol (Llangefni a Biwmares), dylid ystyried a oes angen adolygu'r ddarpariaeth hon er mwyn gweld a fyddai modd gostwng y gwariant arnynt.

## 6. Ysgol y Bont

6.1 Mae Ysgol y Bont yn ysgol arbennig a gynhelir gan yr Awdurdod ac sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed gyda nifer o anawsterau dysgu difrifol a dwys. Mae'r ysgol fel y mae ar hyn o bryd yn dod i ddiwedd ei hoes a bydd adeilad newydd sbon yn agor yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf ym mis Ionawr 2014. Ar ôl ei chwblhau, bydd Ysgol y Bont newydd yn darparu lleoliadau addysgol i hyd at 85 o ddisgyblion a chanddynt anawsterau dysgu difrifol.

6.2 Proffil cyfredol y disgyblion sy'n mynychu Ysgol y Bont yw 70% Anawsterau Dysgu Difrifol, 20% Anawsterau Dysgu Amrywiol a Dwys a 10% o ddisgyblion awtistig.

6.3 Wrth gynnal adolygiad o wariant yr ALl ar y ddarpariaeth AAA, rhaid hefyd ystyried cost yr ysgol arbennig. Roedd cyllideb Ysgol y Bont ar gyfer 2012/13 yn £130,670 a chyda lefel gyfredol y gwario, rhagwelir y bydd gorwariant a fydd yn gostwng unrhyw falansau.

6.4 Gyda'r arbenigwyr yn eu lle a'r adnoddau sydd ar gael yn rhwydd ar eu cyfer, gellid ystyried y byddai symud disgyblion a chanddynt anawsterau dysgu dwys sy'n cael eu haddysg ar hyn o bryd yn yr ysgolion cynradd priflif, i Ysgol y Bont, yn un ffordd o ddatrys problem y gwariant uchel ar y gyllideb integreiddio yn yr ysgolion cynradd. Byddai lleoli disgyblion gydag anghenion tebyg (anawsterau dysgu dwys yn yr achos hwn) mewn un ysgol yn golygu gwariant mewn un lleoliad yn hytrach na chostau mewn nifer o ysgolion a dylai hyn arwain at arbedion. Er mwyn dadansoddi hwn fel opsiwn dilys, ystyriodd y Panel gapasiti a gallu'r ysgol i gymryd mwy o ddisgyblion. Roedd y ffigyrau a ddarparwyd ar gyfer y Panel yn nodi y bydd yr ysgol yn llawn i'r capasiti cynlluniedig pan fydd yn agor. Ychydig o botensial sydd ar gyfer symud nifer sylweddol o ddisgyblion ychwanegol iddi.

**Tabl 7: Niferoedd disgyblion yn Ysgol y Bont 2010-14**

| Blwyddyn | Nifer y Disgyblion | % o gapasiti |
|---|---|---|
| 2010-11 | 68 | 68% * |
| 2011-12 | 63 | 63% * |
| 2012-13 | 75 | 75% * |
| 2013-14 | 85 | 100% |

* Roedd lle ar yr hen safle i 100 o ddisgyblion.

6.5 Fodd bynnag, rhaid parhau i ystyried Ysgol y Bont oherwydd gallai datblygu swyddogaethau eraill posibl ar gyfer yr ysgol o fewn maes gwaith y ddarpariaeth AAA arwain at well effeithlonrwydd a gwell gwerth am arian.

## 7. Penawdau Cyllidol Unigol

### 7.1 Anawsterau Gwybyddiaeth a Dysgu

7.1.1 Rhennir anawsterau gwybyddiaeth a dysgu i bedwar maes:

- Anawsterau dysgu cyffredinol /cymedrol (AC)
- Anawsterau dysgu penodol (AP) ie dyslecsia a dyscalculia
- Anawsterau dysgu dwys (AD) ac
- Anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl)

7.1.2 Rhoddir disgrifiad isod o'r anawsterau a'r meini prawf am roi cymorth ychwanegol yn ei le, efo a heb ddatganiad statudol.

**Anawsterau Dysgu Cyffredinol (AC)**

- Wedi cael ymyrraeth ar lefel GY a GY+ ond yn parhau i ddangos anawstersau sylweddol wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd/rhifedd.
- Yn dangos oediad sgiliau ac yn sgorio 70 neu is ar brofion safonedig
- Yn cael anhawster sylweddol ymdopi gyda thasgau gwahaniaethol yn y dosbarth sy'n cael effaith parhaus ar fynediad i'r cwricwlwm.
- sgor CYBLD 8 neu 9
- Darpariaeth - mewnbwn rheolaidd gan gymhorthydd i gyflwyno rhaglen waith penodol - rhannu gyda disgyblion eraill yn y dosbarth lle bo'n bosib. <10awr yn cael eu darparu fel arfer.
- CA2 – lleoliad mewn Uned ol-gynnydd bob bore.

**Anawsterau Dysgu Penodol (AP) - Dyslecsia a Dyscalculia**

- Fel AC ond mewn un maes yn unig
- CYBLD 8 neu 9
- Darpariaeth – mewnbwn rheolaidd gan gymhorthydd fel AC .
  < 5awr fel arfer hy cyfnod bob dydd. Eto rhannu lle bo'n bosib.
  -Mewnbwn uniongyrchol gan athro/athrawes arbenigol 1 neu 2 wers yr wythnos.

**Anawsterau Dysgu Dwys (AD)**

- Yn y 2% isaf o ran gallu a chyrhaeddiad. Gweithio tuag at lefel1 diwedd CS, ar lefel 2 diwedd CA2.
- Asesu'n statudol ar gyfer datganiad
- Sgor CYBLD 10+
- Darpariaeth - cyfwerth a chymorth hanner amser yn y priflif i roi sylw unigol ac mewn grŵp bach. Cefnogaeth allgymorth o Ysgol Y Bont. Os yw'n methu cael mynediad i'r cwricwlwm heb gymorth llawn amser rhoddir ystyriaeth am le yn ysgol y Bont.

**Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl)**

- Asesu'n statudol a lleoli mewn ysgol arbennig.

7.1.3 Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anawsterau gwybyddiaeth a dysgu yn 677.5awr o gefnogaeth yr wythnos (cyfateb i oddeutu 21 cymhorthydd addysgu llawn amser) a llefydd mewn tair uned ol-gynnydd. Rhoddir dadansoddiad manylach yn Nhablau 8 a 9.

**Tabl 8: Oriau ychwanegol o gymorth ar lefel heb ddatganiad i ddisgyblion AC yn ôl dalgylch**

| Blwyddyn | Dalgylch | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Caergybi | Bodedern | Amlwch | Cefni | David Hughes |
| 0 | | | | | |
| 1 | 5 | | 2.5 | | 20 |
| 2 | 5 | | 7.5 | 10 | 10 |
| Cyfanswm CS | 10 | 0 | 10 | 10 | 30 |
| 3 | 10 | 30 | 7.5 | 25 | |
| 4 | | 5 | | 10 | 30 |
| 5 | 15 | 15 | 5 | 15 | 10 |
| 6 | 5 | 0 | | 10 | 30 |
| Cyfanswm CA2 | 30 | 50 | 12.5 | 60 | 70 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm oriau | 40 | 50 | 22.5 | 70 | 100 |
| Hefyd | Uned Cybi | | Uned Eilian | | Uned y Glannau |

**Tabl 9: Oriau o Gymorth I ddisgyblion  ar lefel datganiadau yn ôl dalgylch**

| Blwyddyn | Dalgylch | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Caergybi | Bodedern | Amlwch | Cefni | David Hughes |
| 0 | | 10 | | | 32.5 |
| 1 | 25 | 37.5 | 32.5 | 30 | 32.5 |
| 2 | 15 | 25 | | 30 | |
| Cyfanswm CS | 40 | 72.5 | 32.5 | 60 | 65 |
| 3 | | | | | 20 |
| 4 | 32.5 | | | | |
| 5 | | | 32.5 | | |
| 6 | 25 | 15 | | | |
| Cyfanswm CA2 | 57.5 | 15 | 32.5 | 0 | 20 |
| Cyfanswm oriau | 97.5 | 87.5 | 65 | 60 | 85 |

### 7.2 Anawsterau Iaith a chyfathrebu

7.2.1 Mae gan ddisgybl anawsterau Iaith a chyfathrebu pan fo’n dangos oediad gyda mynegiant a/neu ddealltwriaeth o iaith ac anawsterau gyda sgiliau cymdeithasol . Yn sgil yr oediad mae’r plentyn yn dangos rhai neu oll o’r canlynol: Cael trafferth gwrando a chanolbwyntio, mynegi anghenion, a dilyn cyfarwyddiadau a deall gwybodaeth, cymdeithasu a rhyngweithio yn addas.

7.2.2 Mae’r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am batrwm darpariaeth yn y maes ar draws y Sir.

**Table 10: Patrwm angen, darpariaeth a gwariant ar draws y Sir**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Anstatudol | 57.5 awr | |
| | Datganiad | 40.0 awr | |
| | **Cyfanswm** | **97.5 awr** | 3 chymhorthydd |
| Cyfnod Allweddol 2 | Anstatudol | 72.5 awr | |
| | Datganiad | 401 awr | |
| | **Cyfanswm** | **473.5awr** | 14.5 chymhorthydd |
| | **cyfanswm** | **571 awr** | **17.5  cymhorthydd** |

Os amherir ar allu’r plentyn  i ddefnyddio iaith yn briodol, i gymdeithasu gyda’i gyfoedion ynghyd a bod ag ymddygiad sy’n dilyn patrwm anhyblyg iawn gellir ei ystyried fel plentyn gydag anhawster ar y sbectrwm awtistig. (ASD) Gwelwyd

cynnydd arwyddocaol  yn nifer yr unigolion sy’n derbyn y diagnosis hwn dros y blynyddoedd diweddar.

7.2.3 Mae adnabod union natur anawsterau yn y maes cyfathrebu yn broses sy’n gofyn am ymwneud aml-asiantaethol gan nifer o arbenigwyr  ee therapyddion iaith a lleferydd, pediatryddon, seicolegwyr clinigol ac ati. Gall fod yn broses sy’n cymryd amser hir o asesu datblygiad y plenty dros gyfnod.

**Table 11: Disgrifiad o’r anawsterau a meini prawf am gymorth ychwanegol neu ddatganiad**

| Lefel angen | Disgrifiad o’r angen | Darpariaeth |
|---|---|---|
| Ymyrraeth Gynnar<br><br>PLASC 1/1/1/1 | Mae’r plentyn yn dangos oediad gyda mynegiant, dealltwriaeth, sgiliau cymdeithasol<br><br>Yn sgil yr oediad mae’r plentyn yn dangos rhai neu oll o’r canlynol: Cael trafferth gwrando a chanolbwyntio, mynegi anghenion a gwybodaeth, dilyn cyfarwyddiadau a deall gwybodaeth, cymdeithasu a rhyngweithio yn addas. | • Cyd-weithio efo rhieni<br>• defnydd o arbenigedd Elklan sydd yn yr ysgol<br>• Dilyn arweiniad perthnasol<br>• cyfleuoedd i weithio mewn grwp bach gyda oedolyn er mwyn datblygu sgiliau cymryd tro, cymdeithasu, geirfa ac yn y blaen. |
| Gweithredu Ysgol<br><br>PLASC  1/1/1/1 | mae’r plentyn yn cael trafferth gyda rhai neu oll o’r canlynol: Gwrando a chanolbwyntio, mynegi anghenion a gwybodaeth, dilyn cyfarwyddiadau a deall gwybodaeth, cymdeithasu a rhyngweithio | Gwahaniaethu tasgau yn ôl anghenion sydd wedi cael eu nodi yn y rhestr wirio AFASIC er mwyn targedu sgiliau sydd ar Cynllun Addysg Unigol. Mewnbwn rheolaidd i dargedu meysydd penodol, er enghraifft tasgau grŵp bach yn canolbwyntio ar agweddau o gyfathrebu un neu dwywaith yr wythnos |
| Gweithredu Ysgol a mwy.<br><br>PLASC 1/2/1/2 | Wedi derbyn mewnbwn GY ond cynnydd bychan iawn wedi ei wneud.<br>Mae’r plentyn yn dangos oediad sylweddol gyda mynegiant, dealltwriaeth, sgiliau cymdeithasol<br>Gall fod yn ddibynnol ar ddulliau cyfathrebu eraill ategol – ee Makaton, PECS, Ystym<br>Yn sgil hyn mae’r plentyn yn cael anhawster dilyn cyfarwyddiadau a chyflwyniadau torfol ac angen cyfarwyddyd unigol<br>Yn cael anhawster mynegi anghenion sylfaenol<br>Yn ynysig yn gymdeithasol ac yn cael trafferth cydymffurfio<br>Yn cael anhawsterau gyda sgiliau llythrennedd a dealltwriaeth testun<br>Anhawster prosesu clywedol a chof tymor byr | Ymgynghori efo’r GSA<br>Rhaglen  yn seiliedig ar drafodaeth gydag asiantaethau eraill<br>Mewnbwn Gwasanaeth Seicoleg Addysgol efallai bydd yn arwain at gyfeiriad am Asesiad Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd a/neu Athrawes Arbenigol Iaith a Cyfathrebu<br>Cynllun Addysgu Unigol yn targedu meysydd penodol ac yn defnyddio mewnbwn asiantaethau arbenigol sydd yn ymwneud.<br>Sesiynau ymyrraeth unigol neu grŵp yn rheolaidd |
| Gweithredu Ysgol a Mwy gyda chymorth (3*) | Gall fod yn ddibynnol ar ddulliau cyfathrebu eraill ategol – ee | Asesiad Therapydd Iaith a Lleferydd/Athrawes Arbenigol |

| | | |
|---|---|---|
| PLASC 1/2/1/2 | Makaton, PECS, Ystym<br>Mae'r anawsterau yma yn cael effaith sylweddol ar allu'r plentyn i ymdopi a'r cwricwlwm, i fynegi anghenion sylfaenol ac i ddatblygu sgiliau cymdeithasol yn annibynnol ar draws y cwricwlwm<br>Angen cyfarwyddiadau a chyflwyniad unigol wedi ei addasu yn sylweddol er mwyn cwblhau tasg wedi ei wahaniaethu. | Mynediad at gymorth oedolyn ychwanegol sydd a chymwyster/hyfforddiant addas neu yn gweithio ar gymhwyster/hyfforddiant ym maes cyfathrebu yn rheolaidd.<br>Darparu 5-10 awr o gymorth |
| Datganiad<br><br>PLASC 4/4/1/4 | Anawsterau Dwys gyda mynegiant a lleferydd, dealltwriaeth, sgiliau cymdeithasol<br>Mae'r anawsterau yma yn cael effaith sylweddol a pharhaus ar allu'r plentyn i ymdopi a'r cwricwlwm ac i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd yn annibynnol. | Angen rhaglen waith a chwricwlwm wedi ei addasu yn sylweddol ar draws y cwricwlwm gyda mewnbwn sgiliau sylfaenol a sgiliau bywyd.<br>Mynediad at gymorth oedolyn ychwanegol sydd â chymhwyster/hyfforddiant addas ym maes cyfathrebu yn rheolaidd am gyfnodau sylweddol, > 15awr neu dderbyn addysg o fewn grwp bach/lleoliad arbennig. |

7.2.4 Rhaid i'r ddarpariaeth roi sylw i ddatblygu sgiliau iaith a chyfathrebu penodol a sicrhau ymddygiad priodol sydd ddim yn llesteirio mynediad i'r cwricwlwm. Mae ystyriaethau iechyd a diogelwch yn gallu gofyn am oruchwyliaeth bersonol. O ganlyniad mae'r ddarpariaeth yn y maes hwn yn gallu bod yn gostus.

7.2.5 Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am batrwm y ddarpariaeth ar draws y

**Tabl 12: Patrwm angen, darpariaeth a gwariant ar draws y Sir**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | anstatudol | 112.5 awr | |
| | datganiad | 92.5 awr | |
| | **Cyfanswm** | **205 awr** | **6.3 cymhorthydd** |
| Cyfnod Allweddol 2 | anstatudol | 135 awr | |
| | datganiad | 593 awr | |
| | **Cyfanswm** | **728 awr** | **22.4 cymhorthydd** |
| | **Cyfanswm** | **933 awr** | **28.7 cymhorthydd** |

Mae lefel yr angen yn cyfateb i lefel y boblogaeth sydd ymhob dalgylch.

| Ardal | Caergybi | Bodedern | Amlwch | Cefni | David Hughes |
|---|---|---|---|---|---|
| Oriau (cymorthyddion) | 351 (11) | 47.5 (1.5) | 181 (5.6) | 110 (3.4) | 238 (7.3) |

7.2.6 Mae cyfanswm y gost am y ddarpariaeth ar y lefel yma tua £500,000 y flwyddyn.

### 7.3 Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiadol (ESBD)

7.3.1 Mae ymddygiad y disgybl yn llesteirio ei gynnydd addysgol. Gwahaniaethir rhwng ymddygiad emosiynol ac ymddygiad cymdeithasol. Mae'r tabl isod yn rhoi disgrifiad o'r anawsterau a'r Meini Prawf am gymorth ychwanegol neu ddatganiad

**Tabl 13: Disgrifiad o'r anawsterau a'r Meini Prawf am gymorth ychwanegol neu ddatganiad**

| Lefel angen | Disgrifiad o'r angen | Darpariaeth |
|---|---|---|
| Ymyrraeth Gynnar | Mae'r plenty yn dangos anhawster gyda datblygiad ymddygiad emosiynol, cymdeithasol a dysgu. | Cyd-weithio efo rhieni<br>Gweithredu polisi'r ysgol<br>Dilyn arweiniad perthnasol |
| Gweithredu Ysgol<br><br>PLASC 1/1/1/1 | Mae'r anawsterau'n cael effaith negyddol ar allu'r disgybl i wneud cynnydd, addysgol, cymdeithasol, emosiynol. | Rhaglen ymyrraeth unigol yn seiliedig ar broffil tracio a thargedau'r Cynllun Ymddygiad Unigol. |
| Gweithredu Ysgol a mwy.<br><br>PLASC 1/2/1/2 | Anhawster yn cael effaith sylweddol yn ddyddiol ar allu'r plenty i wneud cynnydd addysgol, emosiynol a chymdeithasol | Ymgynghori efo'r GSA<br>Rhaglen yn seiliedig ar drafodaeth gydag asiantaethau eraill<br>Sesiynau ymyrraeth unigol neu grwp yn rheolaidd<br>Arweiniad gan athrawes arbenigol cael ei adolygu pob 6 wythnos |
| Gweithredu Ysgol a Mwy gyda chymorth (3*)<br><br>PLASC 1/2/1/2 | Anhawster yn cael effaith ar fynediad i'r cwricwlwm<br>Tarfu yn sylweddol ar rediad dosbarth<br>Effaith ar gynnydd addysgol | Mynediad at gymorth ychwanegol am gyfnodau penodol I dargedu sgiliau ymddygiad. Darparu 5-10 awr o gymorth |
| Gweithredu Ysgol a Mwy gyda lleoliad arbenigol (3*)<br>PLASC 2/2/1/3 | Fel uchod ac yn bresennol y rhan fwyaf o'r amser. | Mynediad at gymorth mewn grwp bach am gyfnodau sylweddol.<br>15-20 awr o gymorth |
| Datganiad<br><br>PLASC 4/4/1/4 | Anhawster yn sylweddol a hir dymor.<br>Presennol yn barhaus. | Lleoliad cofrestredig arbenigol ar gyfer ymddygiad<br>. |

7.3.2 Eto mae dosbarthiad yr angen yn cyfateb i'r boblogaeth ymhob dalgylch.

| Ardal | Caergybi | Bodedern | Amlwch | Cefni | David Hughes |
|---|---|---|---|---|---|
| Oriau (cymhorthydd) | 32.5 | 0 | 32.5 | 0 | 32.5 |

7.3.3 Mae gwariant yn y cyfnod sylfaen yn isel i'w gymharu â ChA2. Mae gwariant yng NgA2 ar draws £250,000 y flwyddyn.

## 7.4 Anawsterau Synhwyrol a/neu Gorfforol

7.4.1 Er bod y nifer o ddisgyblion sy'n gofyn am ddarpariaeth ychwanegol yn isel yn y maes yma i'w gymharu â meysydd eraill, mae'r math o ddarpariaeth sydd ei angen ar bob unigolyn yn ddarpariaeth ddrud. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer yr achosion mwyaf dwys lle mae angen i'r disgybl ddysgu defnyddio Braille neu mae angen darparu cymhorthydd sy'n gallu arwyddo er mwyn sicrhau mynediad i'r cwricwlwm. Mae canran y disgyblion yn y boblogaeth ysgol sydd ag anawsterau synhwyrol dwys yn uchel i'w gymharu ag mewn awdurdodau eraill.

7.4.2 Ar hyn o bryd mae 7 disgybl yn ysgolion priflif Ynys Môn sy'n dysgu Braille. Mae 2 ddisgybl yn dibynnu ar rywun i arwyddo er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am 3 disgybl gyda nam clyw difrifol sydd wedi eu lleoli mewn ysgolion arbennig allsirol.

7.4.3 Mae'r gost flynyddol am ddarparu cymhorthyddion sydd wedi eu hyfforddi'n gymwys i weithio efo disgyblion gydag anawsterau synhwyrol oddeutu £150,000. Hefyd rhaid sicrhau bod arian yn y gyllideb i dalu am offer technegol ar gyfer y disgyblion.

7.4.4 Yn yr un modd mae darparu ar gyfer disgyblion gydag anawsterau corfforol dwys yn gostus gan y gallant fod angen cymorth unigol i symud o gwmpas yr ysgol.

# 8. Fformiwlâu Ariannu Amgen / Eraill

8.1 Un o ganlyniadau'r trafodaethau ynglŷn ag amrywiol adrannau'r gyllideb oedd adnabod dwy fformiwla ariannu amgen bosibl. Graddfa symudol – wedi ei seilio ar gyllidebau y pen / y disgybl pob ysgol gynradd unigol – yw'r gyntaf o'r fformiwlâu hynny (gweler 8.2), tra mae'r ail fformiwla wedi ei seilio ar y gwahaniaeth rhwng cyllidebau y pen / y disgybl pob ysgol gynradd unigol a'r cyfartaledd y pen / y disgybl ar gyfer ardal yr Awdurdod drwyddi draw (gweler 8.3).

## 8.2 Graddfa Symudol

8.2.1 Ystyriwyd ymarferoldeb defnyddio graddfa symudol, ac aethpwyd ati i ddatblygu a modelu nifer o wahanol raddfeydd posibl er mwyn arddangos dichonoldeb y

fformiwla arfaethedig. Cafodd pedair enghraifft o raddfeydd posibl eu hystyried a'u trafod gan aelodau'r Panel, gyda'r dealltwriaeth y gellid diwygio unrhyw un o'r graddfeydd hynny yn ôl y gofyn.


8.2.2 Edrychwyd – yn y lle cyntaf – ar gyllidebau y pen / y disgybl pob ysgol gynradd yn unigol, ac aethpwyd ati i rannu'r ysgolion i mewn i grwpiau penodol, wedi eu seilio ar faint y cyllidebau hynny. Rhannwyd yr ysgolion i wyth grŵp, gan osod yr ysgolion gyda'r cyllidebau lleiaf (h.y. llai na £3,000 y pen / y disgybl) gyda ei gilydd yn y band isaf, a'r ysgolion gyda'r cyllidebau mwyaf (h.y. £6,000+ y pen / y disgybl) yn y band uchaf. Gweler isod enghraifft o'r modd yr awgrymir y gellid defnyddio'r drefn hon o rannu ysgolion i mewn i grwpiau / bandiau er mwyn creu fformiwla graddfa symudol ar gyfer pennu hyd a lled y cyfraniadau integreiddio / AAA sydd ar gael i bob ysgol.

8.2.3 **Graddfa / Fformiwla Arfaethedig 2 (Uchafswm Cyfraniad Ychwanegol: £75,000)**


| Cost y Disgybl (£) | Uchafswm Cymorth Ychwanegol (£) | | Rhagamcan o wariant yr Awdurdod Lleol drwy ddefnyddio'r fformiwla hon<br><br>(ffigyrau wedi eu seilio ar ffigyrau 'cost y disgybl' 2012-13) | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Nifer yr Ysgolion** | |
| 6000+ | 0 | | 2 | 6000+ |
| 5500 - 5999 | 15,000 | | 2 | 5500 - 5999 |
| 5000 - 5499 | 25,000 | | 3 | 5000 - 5499 |
| 4500 - 4999 | 35,000 | | 6 | 4500 - 4999 |
| 4000 - 4499 | 45,000 | | 9 | 4000 - 4499 |
| 3500 - 3999 | 55,000 | | 16 | 3500 - 3999 |
| 3000 - 3499 | 65,000 | | 9 | 3000 - 3499 |
| 0 - 2999 | 75,000 | | 1 | 0 - 2999 |
| | | | **48** | **2,260,000** |
| | | | | -175,677 |

* Nid yw unrhyw un o'r ysgolion yn y grŵp / band hwn yn derbyn arian ychwanegol ar hyn o bryd.

**Graddfa / Fformiwla 2 (Uchafswm Cyfraniad Ychwanegol: £75k)**




**Graddfa / Fformiwla 2 (Uchafswm Cyfraniad Ychwanegol: £75k)**



8.2.4 Amcangyfrifir y byddai defnyddio’r raddfa symudol enghreifftiol uchod fel sail ar gyfer dosrannu cyfraniadau integreiddio / AAA i ysgolion cynradd yn galluogi CSYM i wneud arbediad o £175,677. Gellid codi neu ostwng hyd a lled yr arbediad yma drwy newid maint yr ‘uchafswm cyfraniad ychwanegol’ sydd ar gael i ysgolion: e.e. drwy leihau’r ‘uchafswm cyfraniad’ ar gyfer ysgolion yn y band £0-£2999 o £75,000 i £65,000 (a lleihau’r ffigyrau eraill yn yr un golofn yn unol â’r newid hwnnw), byddai maint yr arbediad yn codi i £635,677 (Mae’n bosibl na fyddai’n ymarferol i weithredu toriad o’r maint yma mewn gwirionedd, serch hynny).

8.3 **Gwahaniaeth mewn Cyllideb**

8.3.1 Mae’r ail fformiwla arfaethedig yn seiliedig ar yr Awdurdod yn gwneud cyfraniad cyllidol sy’n ddibynol ar y gwahaniaeth rhwng cyllideb y pen gyfredol yr ysgol unigol a chylideb y pen gyfartalog holl ysgolion yr Awdurdod. Enghraifft o hyn fyddai:

8.3.2 £4,499 (a) yw cyllideb Ysgoll A , ac mae’r ysgol yn gwneud cais am £6,720 (d) o adnoddau ychwanegol gan yr Awdurdod ar gyfer darpariaeth AAA i ddau ddisgybl. £3,667 (b) yw cyfartaledd cyfredol y cymorth ychwanegol gan yr Awdurdod Er mwyn cyfrifo’r gwahaniaeth (c) rhwng cost y pen a chyfartaledd yr Awdurdod defnyddir y fformiwla : a - b = c

£4,499 – £3,667 = £832

8.3.3 Wedi cyfrifo’r gwahaniaeth rhwng cost y pen a chyfartaledd yr Awdurod am gymorth ychwanegol, bydd yr Awdurdod yn ystyried ar gyfer sawl disgybl (e) bydd y cymorth ychwanegol a gyllidir yn cael ei ddarparu, yna gwneir y cyfri canlynol d – (c x e) = cyfraniad yuchwanegol hy

£6,720 – (£832 x 2) = **£5,056**

8.3.4 Yn yr enghraifft uchod ni fyddai Ysgol A yn derbyn y £6,720 llawn y gwnaethpwyd cais amdano ond byddai’n cael cyfraniad ychwanegol o £5,056 gyda’r ysgol ei hun yn gyfrifol am dalu’r gwahaniaeth o £1,664.

## 9. Casgliad

9.1 O'r data ar wybodaeth a ystyriwyd gan y Panel, mae'n amlwg y cymerwyd camau i ostwng lefel y gwariant ar AAA. Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa ariannol lem a chyllidebau sy'n gostwng, er bod yr ymdrechion a wnaed i'w canmol, rhaid tynhau ymhellach oherwydd y ffaith fod Ynys Môn yn gwario ar gyfartaledd £170 yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol ar y ddarpariaeth AAA.

9.2 Rhoddwyd sylw i nifer o feysydd yn ystod ymchwiliad y Panel a bu argymhelliad y panel i rannu'r gyllideb yn benawdau llai yn beth gwerth chweil. Caniataodd hyn i'r Panel ganolbwyntio eu hymchwiliad ar feysydd darpariaeth benodol a nodi unrhyw feysydd lle mae'n ymddangos bod y gwariant yn uchel ar gyfer ymchwiliad pellach manylach.

9.3 Mae AAA yn faes gwaith anferth a allai gymryd llawer iawn mwy o amser ond oherwydd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael a'r etholiad a gynhelir yn o fuan ac sy'n bygwth aelodaeth y Panel, bu'n rhaid cadw ffocws yr ymchwiliad. I'r diben hwn, mae'r Panel wedi adolygu ei gylch gorchwyl cychwynnol, wedi adolygu'r holl ddata sydd ar gael ac wedi nodi nifer o argymhellion i'r Adran Dysgu Gydol Oes eu hystyried yn ei hymdrechion i leihau lefelau gwariant a moderneiddio'r gwasanaethau AAA y mae'n eu darparu.

## 10. Argymhellion

10.1 Wedi i'w ymchwiliadau ddod i ben, Panel Canlyniad Sgriwtini ar gyfer y Gyllideb Integreiddio Addysg yn gwneud y 10 argymhelliad a ganlyn:

**10.1.1 <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn cynnal adolygiad o Uned Eilian (Ysgol Moelfre) i nodi a yw'r uned yn rhoddi gwerth am arian a chwilio am ffyrdd o ailfodelu'r gwasanaeth a ddarperir.**

**10.1.2 <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn rhoi'r gorau i gyllido unrhyw ddarpariaeth AAA ychwanegol dan y pennawd cyllidebol 'Gwybyddiaeth a Dysgu' - ar gyfer disgyblion yn y cyfnod sylfaen (dan 7 oed).**

**10.1.3 <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn ei lle i ddatganoli'r holl arian a nodwyd ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen darpariaeth AAA(3*) anstatudol o ran 'Gwyboddiaeth a Dysgu' ac 'Anawsterau Iaith a Chyfathrebu' i'r ysgolion cynradd.**

**10.1.4 <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn parhau i weithio ar ddatblygu strategaeth, mewn ymgynghoriad gyda'r ysgolion, ar gyfer ymdrin ag anawsterau ymddygiadol. Dylid ystyried sefydlu tîm o weithwyr cefnogaeth arbenigol i weithio yn ysgolion priflif yr Awdurdod.**

**10.1.5 <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn cynnal ymarfer ymgynghori gyda Fforwm Ysgolion Ynys Môn (Cyllid) o ran y fformiwla cyllido amgen a nodwyd yn Rhan 8 yr adroddiad hwn.**

10.1.6 **<u>Argymhellir</u> bod unrhyw arbedion ariannol a wnaed ar y gyllideb integreiddio trwy gydol y flwyddyn yn cael ei glustnodi'n benodol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth AAA ar yr ynys a'i gwneud yn fwy effeithlon.**

**10.1.7 <u>Argymhellir</u> fod grŵp o aelodau etholedig yn cael ei nodi i barhau gyda'r gwaith o adolygu'r gyllideb integreiddio a gweithio mewn capasiti ymgynghorol gyda'r Adran Dysgu Gydol Oes wrth iddynt barhau gyda'u hymdrechion i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.**

**10.1.8 <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn cynnal adolygiad o'r gwariant ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a chanddynt gyflyrau meddygol a thrafod cyllido'r ddarpariaeth gyda phartneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.**

**10.1.9 <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn cael yr awdurdod i ddatblygu strategaeth tymor hir ar gyfer ailfodelu'r gwasanaeth AAA gyda gweledigaeth strategol o sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer gwahanol anghenion yn yr ysgolion a nodwyd yn y dalgylchoedd fel rhan o'r rhaglen o foderneiddio ysgolion.**

**10.1.10 <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn adolygu swyddogaeth Ysgol y Bont o ran yr Unedau Asesu Cyn Ysgol a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a chanddynt anghenion dysgu difrifol yn yr ysgolion priflif.**